
LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# YR HYN A DDYWEDODD POBL YN LLANANDRAS






## BETH DDYSGON NI AM WASANAETHAU IECHYD A GOFAL YN EICH CYMUNED

# Pwy wnaeth yr adroddiad hwn ?

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan **Llais Powys.**

Mae Llais yn gwrando ar bobl am wasanaethau Iechyd a Gofal.



# Beth ddigwyddodd ?

**Ar 5ed Mawrth 2025**, cynhaliodd Llais Powys gyfarfod yn Llanandras.




Siaradodd pobl am eu problemau gyda **gwasanaethau iechyd** a **gofal cymdeithasol**



# Beth ddywedodd pobl wrthym ?





## Mynd at y Meddyg Teulu

Mae'n anodd cael apwyntiad.

Mae pobl yn aros **3 i 4 wythnos** i weld meddyg.

Nid yw gwasanaethau fel **profion gwaed** ar gael bob amser.



## Cyfathrebu Gwael



Nid yw meddygon ac ysbytai bob amser yn siarad â'i gilydd.

Nid yw pobl yn gwybod â phwy i siarad na phryd



# Iechyd Merched




Dim lle lleol i gael **osod coil.**

Mae'n rhaid i bobl deithio i **Lanfair-ym-Muallt.**

# Iechyd Meddwl



Mae pobl yn poeni am **iechyd meddwl** pobl ifanc.

Mae rhai pobl ifanc wedi marw drwy hunanladdiad.




Nid oes digon o help ar ôl i gefnogaeth ddod i ben

# Gofal Cymdeithasol a Chymorth Diwedd Oes

Dim digon o gymorth i ofalwyr na theuluoedd.



Mae'r staff yn brysur ac nid oes ganddyn nhw ddigon o amser.



Mae'n rhaid i ofalwyr ddefnyddio'r ffôn llawer - gall hynny fod yn anodd.



# Problemau Ariannu

**Ysbyty Trefyclo** ar gau.  Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach cael gofal.




Gallai lleoedd fel y **Ganolfan Ddydd** a'r **Tîm Cefnogaeth Cartref** golli arian



# Problemau Trawsffiniol


Nid yw gwasanaethau yng **Nghymru** a **Lloegr** bob amser yn gweithio gyda'i gilydd.




Mae hyn yn achosi problemau mewn trefi ffiniol fel **Llanandras.**

# Beth mae hyn yn ei olygu ?

Mae angen i wasanaethau fod yn haws i'w defnyddio.





Mae pobl eisiau cyfathrebu gwell.

Mae angen gwell cynllunio a chymorth ar wasanaethau lleol.




# Beth fydd Llais yn ei wneud nesaf ?

Bydd Llais Powys yn:



Siarad â'rgwasanaethau iechyd am y problemau.



Gofyn am well gofal i fenywod ac iechyd meddwl.



Ceisio cael arian ar gyfer gwasanaethau lleol.



Gwneudd ganllaw syml i wasanaethau iechyd a gofal.



# Pam mae hyn yn bwysig ?

Roedd pobl Llanandras yn rhannu straeon pwysig.



Bydd Llais yn gweithio'n galed i wella pethau.

# Eisiau dweud eich stori ?



Ebost: ymholiadaupowys@llaiscymru.org
Ewch i: www.llaiscymru.org